**Senedd Cymru**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Economi Gwyrdd**
**GE36**
**Ymateb gan: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

**Welsh Parliament**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**
**Green Economy**
**GE36**
**Evidence from: Future Generations Commissioner for Wales**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Dros ebost

12fed Mawrth 2023

Paul Davies MS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Annwyl Paul

Diolch am y cyfle i roi tystiolaeth i ymchwiliad pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar yr economi werdd cyn fy sesiwn panel tystiolaeth. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol i mi gyhoeddi Cymru Can ym mis Tachwedd, fy strategaeth newydd ar gyfer saith mlynedd fy nhymor fel comisiynydd. Fel rhan o'r strategaeth hon, rwyf wedi ei gwneud yn un o'm cenadaethau i helpu i drosglwyddo Cymru i economi sy'n rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf. Hoffwn weld llywodraeth ar bob lefel yn cydweithio â chymunedau a busnes i wneud i hyn ddigwydd.

Yr hyn a wyddom am y modelau economaidd cyffredinol yw: eu bod yn defnyddio adnoddau naturiol yn gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi; y gall gostwng pris nwyddau arwain at arferion anghynaliadwy ac anfoesegol; a bod y gagendor rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf mewn cymdeithas yn parhau i ledu.

Mae twf economaidd parhaus yn aml yn cael ei weld fel y nod, ond mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu mesur ehangach o lwyddiant. Mae ein Nodau Llesiant yn disgrifio Cymru Lewyrchus fel "cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur". Mae hefyd yn pwysleisio sgiliau, addysg a gwaith teg wrth gynhyrchu cyfoeth.

Mae dwy brif elfen i fwrw ymlaen â hyn:

1. Mae angen i bob polisi a chynllun economaidd yng Nghymru ystyried sut y maent yn sicrhau'r budd mwyaf posibl ar draws yr **holl** Nodau Llesiant er mwyn i'n heconomi gyfan ddod yn 'wyrddach' – er mwyn bodloni'r diffiniad o Gymru lewyrchus.

2. Rhaid inni ganolbwyntio ar feysydd twf yn y sectorau lle mae potensial i greu swyddi gwyrdd tra ar yr un pryd, gwella gwydnwch amgylcheddol a gwella llesiant mewn cymunedau.

Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut rydym yn creu:

- Model economaidd sy'n bodoli o fewn ffiniau planedol ac sy'n rhoi safon byw weddus ac iach i bawb;

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

- Mwy o swyddi ym myd natur i flaenoriaethu atebion hirdymor i'r argyfwng natur a cholli rhywogaethau ochr yn ochr â sero net;
- Gweithlu mwy cyfartal, hygyrch ac amrywiol lle mae mwy o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau, a menywod yn ymuno â'r gweithlu gwyrdd, medrus hwn;
- Economi gylchol, gynaliadwy, lle mae gwastraff yn creu cadwyn gwerth sgil-gynhyrchion ac yn disodli ein dibyniaeth ar ein hadnoddau naturiol a phrosesau carbon-ddwys;
- Cynhyrchu a chyflenwi bwyd sy'n gweithio'n adfywiol ei natur ac sy'n cynnig dyfodol cynaliadwy i gynhyrchwyr a phroseswyr, boed yng Nghymru neu'r economi fyd-eang;
- Adeiladu cyfoeth cymunedol lle mae buddion dal a storio carbon, ariannu adfer natur ac ynni adnewyddadwy yn cael eu cadw o fewn yr economi leol a gwledig.

Er mwyn i economi werdd, lesiant ddod yn realiti yma yng Nghymru, rhaid inni ystyried yr hyn y mae angen inni ei ddarparu (tuag at lesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd) a chydnabod lle nad yw arferion presennol yn mynd â ni yno. Rhaid inni flaenoriaethu buddsoddiad ar bethau sy'n ein galluogi i weithredu ar frys i fynd i'r afael â thueddiadau ac anghenion mwy hirdymor, megis disbyddiad natur a diogelwch bwyd, er enghraifft, a rhoi'r gorau i fuddsoddi mewn mesurau sy'n ein symud ymhellach oddi wrth ein nodau llesiant a'n dangosyddion cenedlaethol. Mae ymagwedd o'r fath yn gofyn am feddwl hirdymor a chydweithio ar y rhyngwyneb rhwng gwahanol feysydd polisi.

Yn fy nhystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Ionawr eleni ar graffu ar gyllideb strategol Llywodraeth Cymru, amlinellais fy mhryderon ynghylch diffyg tystiolaeth o feddwl ataliol a gwneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hir. Ar y cyfan, roeddwn yn teimlo bod diffyg dangos sut roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chymhwyso a pha wahaniaeth yr oedd wedi'i wneud i benderfyniadau. Nid yw cyfyngiad cyllidebol yn gyfiawnhad dros beidio â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. I'r gwrthwyneb, mae hyd yn oed yn fwy o reswm i feddwl a gweithredu'n wahanol.

**Rhaid i'r economi werdd gael ei gwreiddio ar draws pob haen o bolisi economaidd a chyflawni**

Bydd symud i economi lesiant, werdd yng Nghymru yn gofyn am drawsnewid mawr ar bob lefel o bolisi economaidd a chyflawni. Ar lefel genedlaethol, rwyf wedi fy nghalonogi gan gyfeiriad cenhadaeth economaidd Llywodraeth Cymru, a'i hymrwymiad i adolygu cynnydd y genhadaeth yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJC) ddatblygu amcanion llesiant – ac edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw, yn enwedig wrth iddynt gydweithio â'r Bargeinion Twf, ynghylch cyfraniad eu strategaethau economaidd rhanbarthol at nodau llesiant Cymru.

Ar hyn o bryd rwy'n adolygu amcanion llesiant Awdurdodau Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a gallaf weld amcanion sy'n ymwneud ag economi sylfaenol ac amcanion

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

economi gylchol ac economi werdd yn dod i'r amlwg. Mae'n hanfodol bod yr holl haenau hyn o lywodraethu economaidd yn cyd-dynnu i'r un cyfeiriad i gyflawni'r nodau llesiant.

Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan waith sy'n digwydd yn ne-ddwyrain Cymru drwy dîm Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) i annog busnesau i weithredu ar yr hinsawdd. Mae'r tîm wedi bod yn gwneud rhywfaint o gyfranogiad rhagorol trwy ei Glymblaid Hinsawdd Busnes yn cynnal digwyddiadau i fusnesau yn y rhanbarth ymgysylltu ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud a pham ei fod yn bwysig. Mae busnesau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig ac unig fasnachwyr, yn dysgu am ddamcaniaeth newid ymddygiad, egwyddorion economi gylchol a'r angen i weithredu ar frys ar newid yn yr hinsawdd.

**Ysgogi busnes y tu ôl i nodau llesiant Cymru**

Ni allwn gyflawni nodau llesiant Cymru heb i fusnesau chwarae eu rhan. Rwyf wedi fy nghalonogi gan y diddordeb yr wyf wedi'i weld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan y sector preifat. Mae cwmnïau mawr o Gymru yn cysoni eu strategaethau corfforaethol â nodau llesiant Cymru – ac mae fy nhîm hefyd wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar becyn cymorth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig. Rwy'n credu bod mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithredu, cydweithredu a buddsoddi gan y sector preifat y gall Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach eu datgloi. Byddai hyn yn golygu datblygu dull cenedlaethol o gynnwys busnes yn y nodau llesiant a byddai'n golygu datblygu cyfathrebu clir a chyson o'r nodau llesiant, sef 'edau aur', ar draws yr holl bwyntiau lle mae'r sector cyhoeddus yn rhyngweithio â'r sector preifat, er enghraifft o'r Contract Economaidd hyd at y cymorth technegol, y grantiau a'r cyllid sydd ar gael i fusnesau gan y sector cyhoeddus, ynghyd â pholisïau caffael cyrff cyhoeddus.

**Mae caffael yn dal i fod yn gyfle enfawr nad ydynt yn manteisio'n llawn**

Mae fy nhîm hefyd wedi bod yn gweithio ar sut y gall prosesau caffael hyrwyddo cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy ofyn i gyflenwyr ystyried eu Heffeithiau ar Lesiant a disgrifio'r cyfraniad cadarnhaol y gallai eu gweithgarwch masnachol ei gael ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gallai'r dull hwn gefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi yng Nghymru yn sectorau'r economi werdd.

**Dylai'r economi werdd hybu adeiladu cyfoeth cymunedol**

Cenedl gymharol fach yw Cymru, ond mae hyn yn golygu y gallwn fod yn ddigon ystwyth i wneud pethau'n wahanol iawn. Rydym yn wlad o adnoddau naturiol, adnewyddadwy toreithiog y gellir eu defnyddio i ddiwallu ein hanghenion ynni ac adfer bioamrywiaeth mewn sero net a Chymru sy'n gadarnhaol o ran natur. Fodd bynnag, rhaid inni ddysgu o'r gorffennol a gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod budd hyn yn aros o fewn Cymru ac o fewn cymunedau lleol.

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Mae Gweinidog yr Economi wedi datgan ei fwriad i ddatblygu lens economi sylfaenol i ynni adnewyddadwy a thrafnidiaeth carbon isel – a datblygu cadwyni cyflenwi ar gyfer yr economi werdd yng Nghymru, mae hwn yn ddull y dylai CJCs ac Awdurdodau Lleol ei fabwysiadu ar draws eu cynlluniau economaidd. Mae fy nghefndir fy hun yn y sector menter gymdeithasol a chydweithredol wedi dangos i mi sut mae'r modelau busnes hyn, sy'n amlwg o fewn dulliau adeiladu cyfoeth cymunedol, yn addas iawn ar gyfer adeiladu economi llesiant.

**Mae potensial i greu swyddi gwyrdd tra ar yr un pryd, gwella gwydnwch amgylcheddol a gwella llesiant mewn cymunedau:**

Rhaid blaenoriaethu cynhyrchu, cyflenwi a chaffael bwyd fel sector economi werdd. Mae gennym weithlu medrus iawn eisoes yn ein heconomi wledig, ond fel cynifer o ddiwydiannau eraill, yn yr hinsawdd bresennol o newid, mae'n rhaid i'n cymuned ffermio a'r holl sectorau ategol gael eu cefnogi i drawsnewid mewn ffordd gyfiawn. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd hefyd drwy ehangu cwmpas y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, er enghraifft, to bring together a skilled workforce of new entrants in agroecology and nature-based solutions with our farming sector.

**Rhaid inni fynd i'r afael â rhwystrau i newid**

Bydd fy nhîm a minnau'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhwystrau i newid, herio cysyniadau hen ffasiwn o dwf economaidd, ar unrhyw gost. Rhaid inni alinio sut yr ydym yn meddwl am ein heconomi â'r pethau eraill sy'n bwysig i ni yng Nghymru a ddangosir gan y 50 o Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Mae sut rydym yn mesur llwyddiant yn allweddol ac yn gofyn am newid system y tu hwnt i werth ariannol yn unig. Mae cyfle i greu diwylliant ar draws pob sector sy'n gynhwysol, yn cael ei yrru gan werthoedd ac yn hygyrch.

Un ffordd rydw i'n gwneud hyn yw trwy ein Hacademi Arwain Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Academi yn rhoi'r cyfle i fusnesau yng Nghymru gofrestru eu harweinwyr eu hunain yn y dyfodol bob blwyddyn. Mae'r hyn y maent yn ei ddysgu yn rhoi'r sgiliau iddynt fynd yn ôl i'r sefydliad a llunio cynlluniau corfforaethol ynghylch datblygu cynaliadwy a'r Nodau Llesiant. Mae'r un busnesau hyn hefyd yn cefnogi'r Academi i wneud lleoedd ar gael i garfan ehangach o unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan, gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb ac anfantais ledled Cymru.

Edrychaf ymlaen at drafod y pwyntiau hyn ymhellach gyda chi a'r Pwyllgor yn fy sesiwn dystiolaeth yr wythnos nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales